DOGFEN FFRAMWAITH CYNILION CENEDLAETHOL
Hydref 2000

Cynnwys

Rhagair
1. Statws, Nodau ac Amcanion
1.1 Statws
1.2 Nod, Amcanion Strategol ac Amcanion Busnes Allweddol
1.3 Meysydd Perfformiad Allweddol

2. Atebolrwydd a Chyfrifoldeb
2.1 Canghellor y Trysorlys
2.2 Y Prif Weithredwr
2.3 Bwrdd Rheoli Cynilion Cenedlaethol
2.4 Atebolrwydd i'r Senedd

3. Gwasanaethau a Chwsmeriaid
3.1 Cynhyrchion a Gwasanaethau
3.2 Cwsmeriaid
3.3 Budd-ddeiliaid
3.4 Gwasanaeth yn Gyntaf

4. Cyllid, Cynllunio ac Adrodd yn ôl
4.1 Trefniadau Ariannol
4.2 Cynllunio
4.3 Adrodd yn ôl
4.4 Archwilio

5. Pobl
5.1 Amodau a thelerau Gwasanaeth
5.2 Cysylltiadau Staff
5.3 Tâl a Pherfformiad
5.4 Hyfforddi a datblygu
5.5 Cyfle cyfartal

6. Y Ddogfen Fframwaith
6.1 Adolygiad
6.2 Cyhoeddi

Rhagair gan ysgrifennydd economaidd y trysorlys

Daeth Cynilion Cenedlaethol yn Asiantaeth Weithredol ym 1996, ac ers hynny mae wedi sefydlu rhaglen foderneiddio gynhwysfawr ac wedi ailstrwythuro'r busnes yn sylfaenol. Bu'r bartneriaeth allanol ddiweddar gyda Gwasanaethau Busnes Siemens,

sy'n gofalu am ei holl wasanaethau, yn llwyddiannus iawn, gan ennill y Wobr Menter Cyllid Preifat. Roedd Swyddfa'r Archwiliad Cenedlaethol o'r farn bod y gallu ganddynt i .... *ddarparu manteision sylweddol*. Mae'r newidiadau hyn wedi galluogi Cynilion Cenedlaethol i gwrdd â'i dargedau perfformio allweddol yn gyson, a helpu i gadw cost ariannu'r Llywodraeth i lawr.

Cynhaliwyd adolygiad pum mlynedd Cynilion Cenedlaethol yn ddiweddar, gan fwrw golwg sylfaenol dros swyddogaethau'r asiantaeth, ac ystyried pa strwythur sefydliadol fyddai'n gwireddu amcanion polisi'r llywodraeth orau. Roedd yr adolygiad yn cydnabod pwysigrwydd mentrau arloesol diweddar Cynilion Cenedlaethol i wneud yr asiantaeth yn fwy effeithiol ac yn fwy hyblyg. Erbyn hyn, mae mewn gwell sefyllfa nac erioed i barhau i foderneiddio ac mae ganddo'r potensial i gyfateb â'r gorau yn y farchnad gwasanaethau ariannol, gan ddarparu dewis a chynnyrch o werth ar gyfer cynilwyr a buddsoddwyr mewn amgylchedd cystadleuol iawn.

Roedd yr adolygiad yn credu bod y datblygiadau hyn yn ganolog er mwyn sicrhau bod Cynilion Cenedlaethol yn parhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i gost-effeithiolrwydd y ddyled wladol, trwy gynnig cynnyrch a gwasanaethau deniadol i'r cyhoedd. Pennodd brif amcan clir i'r asiantaeth i reoli dyled y llywodraeth mewn modd cost-effeithiol. Mae hyn yn newyddion da i drethdalwyr, oherwydd mae'n helpu i ryddhau adnoddau ar gyfer blaenoriaethau megis iechyd ac addysg, a fyddai fel arall wedi'u gwario ar daliadau llog.

Mae canlyniad yr adolygiad hwn hefyd yn newyddion da ar gyfer cynilwyr presennol a chynilwyr y dyfodol. Bydd Cynilion Cenedlaethol yn ceisio cynnig mwy o gynnyrch a gwasanaethau deniadol i gwsmeriaid presennol a rhai newydd. Hefyd, bydd gan bobl fwy o ddewis o sut i gael gafael ar y cynhyrchion hyn. Dyma weledigaeth gyffrous ar gyfer y dyfodol – gweledigaeth y mae Cynilion Cenedlaethol yn ymdrechu i'w chyflawni.

Gall Cynilion Cenedlaethol fod yn falch iawn o'r trawsnewid trawiadol a gyflawnwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Gellir defnyddio'r ysbryd hwn o wella ac arloesi i greu sefydliad modern, sy'n arddel arferion gorau, fydd gallu llwyddo am flynyddoedd lawer.

Mae'r ddogfen fframwaith hon yn rhoi rhyddid i Cynilion Cenedlaethol ddiogelu ei lwyddiant yn y dyfodol, gan ganiatáu iddo ddatblygu fel busnes, tra'n cadw targedau perfformiad heriol a'i werthoedd craidd.

Dymunaf bob llwyddiant yn y dyfodol i bawb sy'n gweithio i Cynilion Cenedlaethol, boed nhw'n bartneriaid busnes neu'n gyflenwyr.

Melanie Johnson

1. STATWS, NODAU AC AMCANION

1.1 Statws

Adran o'r llywodraeth yw Cynilion Cenedlaethol. Mae'n rhan annatod o drefniadau rheoli dyled y Llywodraeth sy'n gyfrifol am ddarparu cyllid trwy gyhoeddi a gwerthu cynilion a buddsoddiadau i'r cyhoedd. Fe'i sefydlwyd fel Asiantaeth Weithredol Canghellor y Trysorlys ar 1 Gorffennaf 1996. Adolygwyd perfformiad Cynilion Cenedlaethol fel Asiantaeth Weithredol yn 2000, a chadarnhawyd ei statws fel Asiantaeth Weithredol.

Ar hyn o bryd, mae Cynilion Cenedlaethol yn cyflogi tua 130 o staff, yn bennaf yn ei swyddfa yng ngorllewin Llundain. Ar 1 Ebrill 1999, trosglwyddwyd 4000 o staff ôl-swyddfa a gwasanaethau cysylltiedig i Wasanaethau Busnes Siemens (GBS) yn dilyn cynnig dan y cynllun Menter Cyllid Preifat. Erbyn hyn mae GBS yn darparu'r gwasanaethau hyn dan gontract deng mlynedd sy'n golygu buddsoddiad sylweddol mewn adnewyddu busnes a gwella gwasanaeth cwsmeriaid yn sylweddol. Mae Cynilion Cenedlaethol hefyd wedi gwneud trefniadau allanol ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau eraill.

1.2 Nod, Amcanion Strategol ac Amcanion Busnes Allweddol

Nod Cynilion Cenedlaethol yw lleihau cost benthyciadau'r Llywodraeth i drethdalwyr yn awr ac yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, amcan strategol Cynilion Cenedlaethol yw:

- darparu cronfeydd masnachol ar gyfer y Llywodraeth sy'n gost effeithiol mewn perthynas â chronfeydd a godir ar y farchnad gyfanwerthol

Amcanion busnes allweddol Cynilion Cenedlaethol er mwyn gwireddu ei amcanion strategol yw:

- gwneud yr hyn a gynigir i gwsmeriaid yn fwy cystadleuol;
- sicrhau lefelau gwasanaeth cwsmeriaid sy'n cwrdd â safonau arfer gorau'r sector gwasanaethau ariannol masnachol;
- datblygu busnes mwy hyblyg ac ymatebol sy'n gallu ateb ystod o ofynion ariannol net y Trysorlys.

1.3 Meysydd Perfformiad Allweddol

Asesir llwyddiant Cynilion Cenedlaethol yn erbyn targedau mewn tri maes perfformiad:

- Cylch Gorchwyl Ariannu: bydd hyn yn cynnwys llwyddiant Cynilion Cenedlaethol i ddarparu'r arian sydd ei angen ar y Llywodraeth yn fwy cost effeithiol na thrwy ddulliau eraill;
- Gwella Busnes: bydd hyn yn cynnwys llwyddiant Cynilion Cenedlaethol i wireddu'r tri amcan busnes allweddol yn 1.2 uchod;
- Gwerth am Arian: bydd hyn yn cynnwys llwyddiant Cynilion Cenedlaethol i wella ei effeithiolrwydd a'i effeithlonrwydd wrth gyflawni ei nod.

Cytunir ar dargedau gyda Gweinidogion fel rhan o'r broses cynllunio busnes.

2. ATEBOLRWYDD A CHYFRIFOLDEB

2.1 Canghellor y Trysorlys

Mae'r Canghellor yn gyfrifol am:

- benderfynu ar y fframwaith polisi ac ariannol y mae Cynilion Cenedlaethol yn gweithredu o'i fewn;
- cymeradwyo'r cyfraddau llog a thelerau ac amodau cynhyrchion Cynilion Cenedlaethol
- penodi'r Prif Weithredwr ac aelodau anweithredol Bwrdd Rheoli Cynilion Cenedlaethol; a
- phennu a monitro targedau perfformio allweddol Cynilion Cenedlaethol.

Mae'r fframwaith polisi yn cynnwys:

- y ddogfen fframwaith hon;
- Cynllun Corfforaethol ar gyfer Cynilion Cenedlaethol sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol; a'r
- 'Cylch Gorchwyl Ariannu' blynyddol sy'n nodi'r arian sydd ei angen gan Cynilion Cenedlaethol, ei gost effeithiolrwydd o'i gymharu â stociau'r llywodraeth ac unrhyw gyfyngiadau ar y modd y codir yr arian.

Gall y Canghellor ddirprwyo'r cyfrifoldebau hyn i Weinidog arall o fewn Trysorlys EM. Wrth ddirprwyo'r cyfrifoldebau hyn, efallai y bydd y Canghellor yn dymuno ceisio cyngor gan swyddogion y Trysorlys ac aelodau anweithredol Bwrdd Rheoli Cynilion Cenedlaethol a fydd yn cynnig cyngor o'r fath mewn cyd-destun personol.

2.2 Y Prif Weithredwr

Mae Canghellor y Trysorlys yn dirprwyo rheolaeth Cynilion Cenedlaethol i'r Prif Weithredwr. Canghellor y Trysorlys sy'n penodi'r Prif Weithredwr.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Ganghellor y Trysorlys am berfformiad Cynilion Cenedlaethol yn unol â'r ddogfen fframwaith hon a'r Cynllun Corfforaethol.

Penodir y Prif Weithredwr gan Drysorlys EM fel ***Swyddog Cyfrifo*** ar gyfer Cynilion Cenedlaethol. Mae ef neu hi felly yn atebol am gyfrifon cynhyrchion Cynilion Cenedlaethol ac am ddefnydd cywir, effeithiol ac effeithlon o arian cyhoeddus, ac efallai y bydd gofyn iddo/iddi ymddangos o flaen y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae ef neu hi hefyd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cwrdd â gofynion cyfrifo'r

llywodraeth a bod Cynilion Cenedlaethol yn ufuddhau i unrhyw arweiniad cyffredinol a gyhoeddir gan adrannau canolog.

2.3 Bwrdd Rheoli Cynilion Cenedlaethol

Mae Bwrdd Rheoli Cynilion Cenedlaethol yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr i bennu polisi Corfforaethol, yn sicrhau llywodraethu da ac yn monitro perfformiad yr Asiantaeth. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Prif Weithredwr; y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac o leiaf ddau swyddog Trysorlys EM.

2.4 Atebolrwydd i'r Senedd

Mae Canghellor y Trysorlys yn atebol i'r Senedd am bob mater sy'n ymwneud â Chynilion Cenedlaethol, a bydd yn delio â chwestiynau sy'n ymwneud â pholisi ac ymholiadau gan Aelodau Seneddol (AS) ac Aelodau Senedd Ewrop (ASE) sy'n chwilio'n benodol am ymateb gweinidog. Fodd bynnag, anogir ASau ac ASEau i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r Prif Weithredwr am achosion unigol neu faterion gweithredol.

3. GWASANAETHAU A CHWSMERIAID

3.1 Cynhyrchion a Gwasanaethau

Cynilion Cenedlaethol sy'n cyhoeddi a dosbarthu gwarannau anwerthadwy y llywodraeth i farchnad fasnachol y DU. Ni ddylai unrhyw wasanaethau neu gynhyrchion ategol eraill y gall Cynilion Cenedlaethol eu datblygu wrthdaro gyda'r amcan sylfaenol o ariannu cost-effeithiol.

Wrth ddarparu unrhyw gynhyrchion neu wasanaethau bydd yr hyn a gynigia Cynilion Cenedlaethol yn gyson â'r egwyddorion yn 3.2 i 3.5 isod a bydd ei werthoedd brand, sef *diogelwch, gonestrwydd a didwylledd, yn cael eu cyflwyno gyda gwedd bersonol*.

3.2 Cwsmeriaid

Bydd Cynilion Cenedlaethol yn atebol i gwsmeriaid am ei gynnyrch a'i wasanaethau, gan gynnwys y rhai hynny a ddarperir gan ei asiantau a'i gyflenwyr. Er mwyn cynorthwyo hyn, bydd yn:

- nodi'r safonau gwasanaeth y mae gan gwsmeriaid hawl eu disgwyl yn eglur mewn Côd Cwsmeriaid;

- ymateb i ohebiaeth gan gwsmeriaid o fewn y targedau a nodir yn ei Gytundeb Darparu Gwasanaeth;

- ceisio datrys unrhyw gwynion am wasanaethau neu gynnyrch a lle nad yw hyn yn bosibl, cyfeirio unrhyw honiadau o gamweinyddu i'r Comisiynydd Seneddol a phob mater arall i'r Dyfarnwr annibynnol.

3.3 Budd-ddeiliaid

Mae budd-ddeiliaid Cynilion Cenedlaethol yn cynnwys cwsmeriaid, y Llywodraeth, y Trysorlys, partneriaid a chyflenwyr, sefydliadau eraill sy'n ymwneud â rheoli dyled a'i staff ei hun. Bydd Cynilion Cenedlaethol yn ceisio hysbysu pob budd-ddeiliad o'i gynnydd a'i gynlluniau. Atebir ymholiadau gan fudd-ddeiliaid yn gyflym ac yn gywir.

3.4 Gwasanaeth yn Gyntaf

Bydd Cynilion Cenedlaethol yn cymhwyso holl egwyddorion Darparu Gwasanaeth i'r Cyhoedd i lefelau arferion gorau, a bydd yn defnyddio meincnodau sector preifat yn ogystal â sector cyhoeddus i fesur perfformiad.

4. CYLLID, CYNLLUNIO AC ADRODD YN ÔL

4.1 Trefniadau Ariannol

Bydd Cynilion Cenedlaethol yn gweithredu o fewn yr adnoddau y bydd y Senedd yn eu pennu trwy bleidlais bob blwyddyn.

Mae gan y Prif Weithredwr awdurdod ariannol llawn o fewn y symiau arian y mae'n gyfrifol amdanynt trwy bleidlais. Dirprwyir y cyfrifoldebau ariannol hyn i'r Prif Weithredwr gan Ganghellor y Trysorlys.

4.2 Cynllunio

Bydd Cynilion Cenedlaethol yn paratoi Cynllun Busnes Corfforaethol. Bydd y cynllun yn cynnwys materion strategol dros gyfnod o dair blynedd o leiaf, ac yn cael ei adolygu'n flynyddol. Caiff y cynllun ei gyflwyno i Ganghellor y Trysorlys bob blwyddyn, a bydd yn:

- datgan nod ac amcanion strategol Cynilion Cenedlaethol;

- nodi'r ffactorau allanol allweddol sy'n debygol o effeithio ar gyflawni'r amcanion strategol;

- nodi ac egluro prosiectau allweddol;

- nodi'r adnoddau sydd eu hangen i wireddu'r amcanion a'u defnydd arfaethedig;

- nodi'r targedau a'r mesuriadau perfformiad allweddol.

Cefnogir y cynllun gan gynllun ariannu manwl dros flwyddyn sy'n egluro sut mae Cynilion Cenedlaethol yn bwriadu cyflawni'r cylch gorchwyl ariannol.

4.3 Adrodd yn ôl

Bydd Cynilion Cenedlaethol yn paratoi Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol yn unol ag arweiniad Trysorlys EM a Swyddfa'r Cabinet.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn adolygu gweithrediadau Cynilion Cenedlaethol dros y flwyddyn flaenorol ac yn cymharu ei berfformiad gyda'r targedau. Caiff yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol eu cyhoeddi a'u rhoi gerbron Ty'r Cyffredin a Thy'r Arglwyddi yn unol â'r amserlen a nodir gan Drysorlys EM.

Bydd Cynilion Cenedlaethol yn paratoi unrhyw gyfrifon eraill o drafodion buddsoddwyr a balansau mewn llaw, fel sydd ei angen ar Drysorlys EM.

4.4 Archwilio

Bydd Cynilion Cenedlaethol yn destun archwiliad allanol gan y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol a fydd yn ardystio'r cyfrifon.
Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am gomisiynu'r gwasanaethau archwilio mewnol sydd eu hangen i sicrhau rheolaeth gywir ac effeithlon o fusnes Cynilion Cenedlaethol er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifo. Bydd trefniadau archwilio mewnol Cynilion Cenedlaethol yn cydymffurfio â safonau Trysorlys EM.

5. POBL

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am bennu polisïau adnoddau dynol Cynilion Cenedlaethol a rheoli ei staff.

5.1 Amodau a thelerau gwasanaeth

Mae staff Cynilion Cenedlaethol yn weithwyr y goron ac mae Côd Rheoli'r Gwasanaeth Sifil yn berthnasol iddynt. Bydd y Prif Weithredwr, wrth arfer ei chyfrifoldebau/gyfrifoldebau, yn ystyried arweiniad a rheoliadau a gyhoeddir gan yr adrannau canolog a Chomisiynwyr y Gwasanaeth Sifil.

5.2 Cysylltiadau Staff

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am gynnal cysylltiadau staff da a bydd yn ymgynghori â staff a'u cynrychiolwyr fel y bo'n addas.

5.3 Tâl a Pherfformiad

Yn amodol ar arweiniad canolog a gyhoeddir gan y Llywodraeth, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am drafod tâl ac am bennu amodau a thelerau gwasanaeth pob aelod o staff Cynilion Cenedlaethol nad ydynt yn Uwch Weision Sifil.

5.4 Hyfforddi a datblygu

Bydd Cynilion Cenedlaethol yn sicrhau bod ei staff yn cael eu datblygu a'u hyfforddi fel y bod modd iddynt wneud y cyfraniad mwyaf i lwyddiant busnes Cynilion Cenedlaethol.

Mae Cynilion Cenedlaethol yn Fuddsoddwr mewn Pobl achrededig a bydd yn ceisio cadw'r achrediad.

5.5 Cyfle cyfartal

Mae Cynilion Cenedlaethol yn gyflogwr cyfle cyfartal. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod Cynilion Cenedlaethol wedi sefydlu polisi cyfle cyfartal sy'n gyson ag arweiniad y llywodraeth ganolog, a'i fod yn gweithredu'n unol ag ef.

6. Y DDOGFEN FFRAMWAITH

6.1 Adolygiad

Bydd Bwrdd Rheoli Cynilion Cenedlaethol a Thrysorlys EM yn adolygu'r fframwaith y mae Cynilion Cenedlaethol yn gweithredu o'i fewn yn ffurfiol, ddim hwyrach na Mawrth 2005. Bydd yr adolygiad yn argymell newidiadau i Ganghellor y Trysorlys.

Os daw yn amlwg i Fwrdd Rheoli Cynilion Cenedlaethol neu Ganghellor y Trysorlys ar unrhyw adeg nad yw'r Ddogfen Fframwaith bellach yn addas, bydd y Prif

Weithredwr ynghyd â swyddogion y Trysorlys yn paratoi testun diwygiedig i'w ystyried.

6.2 Cyhoeddi

Rhoddir copïau o'r ddogfen Fframwaith hon ac unrhyw newidiadau iddi yn llyfrgelloedd y Senedd.